

DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

EXPLANATORY NOTES

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

Atodlen 7 – Partneriaethau

Rhan 8 - Trosglwyddiadau sy'n ymwneud â phartneriaethau buddsoddi mewn eiddo

291. Mae Rhan 8 o'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo buddiannau mewn partneriaethau buddsoddi mewn eiddo (paragraff 34), y mae dal tir neu fuddsoddi mewn tir yn unig neu'n brif weithgaredd iddynt. Pan drosglwyddir buddiant mewn partneriaeth buddsoddi mewn eiddo, ni chaiff y tir ei drosglwyddo'n gyfreithiol ac eithrio'n anuniongyrchol drwy newid aelodau'r bartneriaeth. Mae trosglwyddo buddiant mewn partneriaeth buddsoddi mewn eiddo yn arwain at godi treth trafodiadau tir ar y person sy'n caffael cyfran uwch neu gyfran newydd o'r bartneriaeth. Cymerir bod y gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer trosglwyddo buddiant mewn partneriaeth yn hafal i gyfran o werth marchnadol "eiddo perthnasol y bartneriaeth" (gweler paragraff 34(6) a (7)).
292. Mae paragraff 35 yn eithrio lesioedd penodol o'r diffiniad o eiddo perthnasol y bartneriaeth. Lesioedd yw'r rhain y mae gwerth marchnadol iddynt yn unig oherwydd newidiadau mewn rhent marchnadol, ac sy'n bodloni amodau penodol eraill.
293. Mae paragraff 36 yn caniatáu i bartneriaeth buddsoddi mewn eiddo ddatgymhwysio paragraff 13 o'r Atodlen hon, sy'n darparu ar gyfer trafodiadau sy'n ymwneud â throsglwyddo buddiant trethadwy i bartneriaeth. Pan wneir dewis o'r fath cyfrifir treth trafodiadau tir ar sail gwerth marchnadol y buddiant trethadwy a drosglwyddir. Mae dewis o'r fath yn un di-alw'n-ôl ac ni ellir ei dynnu'n ôl na'i ddiwygio ar ôl i'r dewis gael ei wneud.